Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf


Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4177A2024

Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Pam mae comisiynu yn bwysig 4

Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut olwg sydd ar dda 5

Ein dulliau archwilio a phryd wnaethom gynnal yr archwiliad 5

Yr hyn a ganfuom 6

Ein hargymhellion i'r Cyngor 9

Atodiadau

Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio 10

# Adroddiad cryno

## Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn:

- adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (ai peidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ac;
- adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Gall yr archwiliad hwn hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:

- rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau; ac
- esbonio sut mae cynghorau yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arferion/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.

## Pam mae comisiynu yn bwysig

5 Comisiynu yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i gynllunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau drwy ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ac yn gorffen pan fydd y Cyngor yn trefnu ei ddull o gyflwyno. Er enghraifft, trwy sefydlu tîm cyflenwi'n fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.

6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau effaith a gwerth am arian gwasanaethau, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, megis caffael a rheoli contractau, yn gadarn.

## Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut olwg sydd ar dda[1]

7 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau y mae hyn wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

8 Ni wnaeth yr archwiliad hwn gynnwys trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

9 Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiwn cyffredinol: **Mewn gwasanaethau comisiynu a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

10 Gwnaethom ddefnyddio'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos sut mae'r meini prawf yn ymwneud â'r cwestiynau archwilio. Mae hyn wedi'i lywio gan ein gwybodaeth gronnol yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i gefnogi ein harholiadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## Ein dulliau archwilio a phryd wnaethom gynnal yr archwiliad

11 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r swyddogion/uwch swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu dull strategol y Cyngor o gomisiynu. Gwnaethom hefyd gyfweld ag uwch swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.

12 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau'r cyngor, gwnaethom gynnal profion samplu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, fe wnaethom ddewis sawl gwasanaeth lle mae'r Cyngor wedi gwneud y penderfyniad i gomisiynu gwasanaethau yn allanol ac archwilio'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Y sampl o feysydd y gwnaethom eu hadolygu yn y Cyngor:

- Gwasanaethau Byw â Chymorth
- Fframwaith hyfforddi llwybr cyflogaeth
- Darparu gwasanaethau cwnsela annibynnol mewn ysgolion ac yn y gymuned i blant a phobl ifanc 11-18 oed gan gynnwys plant cynradd blwyddyn 6

[1] Wedi'i ddiffinio fel 'beth ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'beth allai fod', petai amodau gwell.

13 Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom ymgymryd â'r gwaith hwn rhwng mis Awst a mis Medi 2024.

14 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu adroddiad cenedlaethol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Ar y cyfan, gwnaethom ganfod bod **gan y Cyngor ddull clir a phriodol o gomisiynu yn gyffredinol, ond mae gwendidau yn ei drefniadau i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni yn gyson**. Gwnaethom nodi isod pam y gwnaethom ddod i'r casgliad hwn.

16 Mae'r Cyngor yn sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu wedi'u diffinio'n glir ac mae ganddynt resymeg glir sy'n esbonio pam mae angen y gwasanaeth arnynt. Mae trefniadau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth roi diffiniad clir o'r gwasanaethau y maent yn bwriadu eu comisiynu. Roedd pob un o'r tri gwasanaeth a gomisiynir y gwnaethom eu hadolygu yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Mae meddu ar ddealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

17 Mae trefniadau'r Cyngor yn annog meysydd gwasanaeth i ystyried gwahanol ddewisiadau comisiynu. Gwnaethom ganfod bod y Cyngor yn ystyried dewisiadau comisiynu eraill yn ymarferol, ochr yn ochr â'r costau a buddion ac asesiadau risg cysylltiedig o'r dewisiadau. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad yw'r ystyriaethau hyn yn cael eu cofnodi'n rheolaidd. Mae cofnodi'r ystyriaethau hyn yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian.

18 Mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth gynllunio dros amserlen briodol. Mae trefniadau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth ystyried a chydbwyso anghenion tymor byr a hirdymor wrth gynllunio hyd contractau. Er enghraifft, penderfynwyd ar hyd y contract gwasanaeth cwnsela ysgolion trwy gydbwyso ystyriaethau cyflenwi ymarferol gydag ystyriaethau mwy tymor hir, megis amcangyfrifon cyllideb a'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol sy'n newid. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad yw pob gwasanaeth yn ystyried cydbwyso diwallu anghenion tymor byr a hirdymor. Mae ystyried y goblygiadau tymor byr a mwy tymor hir yn gyson wrth wneud penderfyniadau comisiynu yn lleihau'r risg o beidio â chyflawni gwerth am arian yn fwy hirdymor.

19 Mae'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau hirdymor wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn gofyn am ystyried adnoddau ac yn annog bod telerau safonol yn cael eu cynnwys mewn contractau. Mae'r

telerau safonol hyn yn rhoi hyblygrwydd i alluogi costau i amrywio pe bai lefelau cyflenwi gwasanaethau neu gyllid yn amrywio yn y dyfodol.

20 Nid yw trefniadau comisiynu'r Cyngor yn nodi dull safonol o fonitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir. Canfuom, yn ymarferol, fod meysydd gwasanaeth yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir. Fodd bynnag, mae'r dulliau a ddefnyddir gan wahanol feysydd gwasanaeth yn amrywio o ran eu manylder. O ganlyniad, mae risg bod y graddau y gall y Cyngor gael sicrwydd bod gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni gwerth am arian hefyd yn amrywio.

21 Mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth ystyried yr effeithiau ehangach y gallai eu gwasanaethau comisiynu ei gael. Roedd y gwasanaethau a archwiliwyd gennym yn ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyfrannu at amcanion llesiant y Cyngor ei hun, a hefyd y nodau Llesiant Cenedlaethol. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth y gwnaethom ei chanfod fod y gwasanaethau a archwiliwyd gennym wedi ystyried amcanion lles sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Trwy beidio ag ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu'n llawn, mae'r Cyngor yn wynebu risg o ddyblygu gweithgareddau a pheidio â nodi manteision amryfal a allai sicrhau canlyniadau gwell a gwerth am arian.

22 Mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn rhoi sicrwydd cyfyngedig ei fod yn ymgysylltu â'r grwpiau o bobl a phartneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir.

23 Nid yw trefniadau comisiynu'r Cyngor yn gofyn am ddadansoddiad ffurfiol gan randdeiliaid o bwy fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arnynt gan wasanaethau a gomisiynir. Er gwaethaf hyn, gwnaethom ganfod bod meysydd gwasanaeth wedi nodi gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, eu bod yn gallu dangos ymwybyddiaeth o randdeiliaid perthnasol, a'u bod wedi ymgysylltu â nhw. Gall gweithio gyda'r bobl gywir helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau ac, felly, yn fwy tebygol o ddarparu gwerth am arian.

24 Gwnaethom ddod o hyd i arfer nodedig lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at lywio dylunio comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys sut y gallai effeithio ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, roedd defnyddwyr gwasanaeth byw â chymorth y Cyngor yn rhan o broses ail-dendro'r gwasanaeth.

25 Mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ardaloedd gwasanaeth nodi sefydliadau partner posibl y gallent weithio gyda nhw. Gwneir hyn trwy ei dempled Strategaeth Gorfforaethol, er nad oedd yr holl wasanaethau a archwiliwyd gennym ni wedi cwblhau'r gofyniad hwn. Gall nodi a manteisio ar yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth helpu'r Cyngor i sicrhau bod ei wasanaethau'n cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar werth am arian.

26 Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu fel mater o drefn. Mae trefniadau comisiynu yn cael eu hadolygu'n anffurfiol ar sail ad hoc, ond ni wnaethom ganfod tystiolaeth bod yr adolygiadau hyn wedi arwain at welliannau diweddar i drefniadau comisiynu. Trwy beidio â gwerthuso economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu, mae'r Cyngor yn wynebu risg o beidio â nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian.

27 Nid yw'r Cyngor yn adolygu fel mater o drefn, a yw'r meysydd gwasanaeth yn cydymffurfio â bodloni'r gofynion a nodir yn ei drefniadau comisiynu. Gall monitro cydymffurfiaeth â threfniadau comisiynu roi sicrwydd i'r Cyngor bod y trefniadau y mae'n eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian yn cael eu gweithredu yn ymarferol.

28 Nid yw trefniadau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth rannu unrhyw wersi a ddysgwyd o'u dull gweithredu comisiynu gyda sefydliadau partner eraill. Gwnaethom ganfod rhai enghreifftiau lle mae gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu'n fewnol, er enghraifft, yn anecdotaidd trwy brofiad a gwybodaeth swyddogion caffael penodedig. Gall rhannu gwersi a ddysgwyd yn fewnol ac yn allanol helpu i nodi ac ailadrodd cyfleoedd i wella gwerth am arian trefniadau.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | **Cryfhau trefniadau comisiynu**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau comisiynu trwy sicrhau bod y canlynol yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd wrth gomisiynu gwasanaethau:<br>• arfarniadau dewisiadau cynhwysfawr (**Paragraff 17**); a<br>• dadansoddiad rhanddeiliaid ac ymgysylltu â'r grwpiau o bobl a phartneriaid cywir i lywio'r dull comisiynu (**Paragraffau 23 a 25**). |
| **A2** | **Adolygiad o drefniadau comisiynu'r Cyngor**<br>Dylai'r Cyngor werthuso gwerth am arian ei drefniadau comisiynu fel mater o drefn a rhannu gwersi a ddysgwyd yn fewnol a chyda phartneriaid allanol perthnasol. (**Paragraffau 26 a 28**) |
| **A3** | **Cryfhau cydymffurfiaeth â'i drefniadau comisiynu**<br>Dylai'r Cyngor gyflwyno trefniadau i fonitro cydymffurfiaeth â'i ddull gweithredu corfforaethol o gomisiynu. (**Paragraffau 21 a 27**) |

# Atodiad 1

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnydd ei adnoddau?

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| A oes gan y Cyngor sail resymeg glir dros gomisiynu gwasanaethau? | A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham? | • Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau, gan gynnwys:<br>– canlyniadau/effaith arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth<br>– os/sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol |
| | A yw'r Cyngor yn cynnal arfarniad cynhwysfawr o ddewisiadau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr amrywiaeth lawn o ddewisiadau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth – gallai dewisiadau gynnwys, er enghraifft:<br>– darpariaeth fewnol<br>– trefniadau partneriaeth neu ddulliau o gomisiynu o fewn ac ar draws sectorau<br>– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall trwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall<br>– contractio'r gwasanaeth trwy broses dendro<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried costau a manteision y dewisiadau o safbwynt economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd – gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau yn ei asesiad o ddewisiadau comisiynu<br>• Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad o'r risg ar gyfer pob dewis comisiynu fel rhan o'r asesiad o gostau a buddion<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth o 'r ffactorau presennol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir |
| | A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu | • Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae'r tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o |

| | | |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | wrth gomisiynu gwasanaethau? | gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen y mae'n gallu/y dylai gynllunio a pham<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cydbwyso anghenion tymor byr a hirdymor wrth gynllunio comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill |
| | A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau hirdymor wrth gomisiynu gwasanaethau? | • Mae'r Cyngor yn ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu amrywiaeth o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir |
| | A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir? | • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir.<br>• Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro, gan gynnwys:<br>– costau a manteision<br>– cynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a thymor hir |
| A yw'r Cyngor wedi ystyried effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth comisiynu eu cael? | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall wneud y mwyaf o'u cyfraniad at amcanion llesiant y Cyngor? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau manteision amryfal, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft ystyried amcanion tymor hwy, cadwyn gyflenwi leol, cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd amser contract, bioamrywiaeth, lleihau carbon. |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y mwyaf o'u cyfraniad at amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill ? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus i sicrhau manteision amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |
| | Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y mwyaf o'u cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol? | • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau comisiynu yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau manteision amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol |

| | | |
|---|---|---|
| A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynir? | A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys? | • Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd yn cael eu heffeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan wasanaethau a gomisiynir. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu debyg. |
| | A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl? | • Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau'r gweithgaredd cyfranogiad i lywio sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig |
| | A yw'r Cyngor yn cydweithio â'r partneriaid cywir? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba bartneriaid a phartneriaid posibl y gallai gweithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau<br>• Lle y nodir cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn eu dilyn |
| A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull gweithredu o ran comisiynu? | A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fel mater o drefn? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd effeithiolrwydd ei ddull o gomisiynu, gan gynnwys:<br>– i ba raddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn bodloni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod<br>– gwerth am arian modelau comisiynu a ddewisir gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau |
| | A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd yn rheolaidd i lywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn defnyddio unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull o gomisiynu'n eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: https://www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and phone calls in Welsh and English.